Cofnodion Cyfarfod 10 Chwefror 2015 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown (KB)	Pat Jones	
Lena Ashley (LA)	Nerys John	
George Smith (GS)	Daniel Williams	
Siân Gwenllïan	Sarah Riley	
Louise Hughes		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod mis Chwefror. **Ymddiheuriadau**: Mair Bebb Jones, Iestyn Harris	
2.0	Croesawodd y Cadeirydd, Mr Len Williams i annerch y Cyngor. Rhoddodd gyflwyniad am y syniad i godi Canolfan Treftadaeth. Cafwyd ychydig o drafodaeth ar y mater. **Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn cefnogi'r syniad ac yn barod i fynychu cyfarfod i drafod y syniad**.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
3.1	Fe gyflwynodd y canlynol ffurflenni datgan diddordeb. Sarah Riley eitem 10.2 a 10.3 Nerys John eitem 7.2 a 10.3 Daniel Williams eitem 7.2 Louise Hughes eitem 7.2 Pat Jones eitem 10.1 Siân Gwenllïan eitem 7.2 Ken Brown eitem 7.2	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 6ed a 13fed o Ionawr 2015. **Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd gydag ychydig o newidiadau fel rhai cywir a'u harwyddo.**	**CLERC**
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Kronos** - Rhoddodd y Clerc ddatganiad i'r aelodau bod y cynnig sydd wedi ei dderbyn yn dal i dderbyn sylw'r cwmni.	
5.2	**Rowen**- Dywedodd y Clerc bod Mr Mark Roberts angen sylwadau'r Cyngor ar ei gyflwyniad ynglŷn â'i ddatblygiad arfaethedig ar gae Rowen. Cafwyd trafodaeth a **phenderfynwyd: i beidio a chefnogi unrhyw ddatblygiad ar y cae. Y Clerc i anfon at Mr Mark Roberts**.	**CLERC**
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
6.1	Rhoddodd y Cynghorydd Daniel Williams y	

	newydd diweddaraf ynglŷn â'r neuadd a gobeithir bydd cyfarfod a'r pensaer yn digwydd yn fuan a bydd adroddiad yn y cyfarfod misol nesaf.	**DW**
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Ionawr.	
7.2	**Ceisiadau Cymorth Ariannol** – Gweler Atodiad 1.	
7.3	**Aelodaeth Unllais –** Cytuno i ymaelodi eto eleni.	
7.4	**SLCC -** Cytuno i ymaelodi unwaith eto eleni.	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	Yr Arolygaeth Gynllunio- Llwybr ger Glan y Môr Lodge. - **Penderfynu bod y Cynghorydd George Smith am gynrychioli'r Cyngor.**	**CLERC**
8.2	Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn – Y Cynllun Adnau- **Gwybodaeth yn unig**.	
8.3	Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor - Penodi Aelod i Fforwm Mynediad. **Anfon Enw George Smith ymlaen.**	
8.4	Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd – Par: Gorchymyn Cyngor Gwynedd Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau parcio ar y Stryd (Ardal Arfon) 2015 – **Dim gwrthwynebiad.**	
9.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
9.1	Dim i'w adrodd	
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	C15/0026/20/CC – Gwneud gwaith i goed wedi eu gwarchod o dan Gorchymyn Gwarchod Coed- Tir i'r ochr 10 Ffordd Hebog y Felinheli LL56 4QZ-**Dim gwrthwynebiad**	
10.2	C15/0015/20/LL – Codi estyniad llawr cyntaf ar gefn yr eiddo – Llys Teg Tafarn Grisiau Road, Y Felinheli, LL56 4NZ – **Dim Gwrthwynebiad**	
10.3	C15/0066/20/LL - Dymchwel lolfa haul presennol a chodi estyniad unllawr i flaen yr eiddo ynghyd a newidiadau i do estyniad presennol ar y cefn - 14 Tan y Maes Y Felinheli LL56 4UQ. - **Dim gwrthwynebiad**	
10.4	C15/0017/20/LL - Estyniad i lolfa haul presennol - 22 Bryn y Môr, Y Felinheli, LL56 4LY - **Dim gwrthwynebiad**	
11.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	

	Angen i'r gwair gael ei dorri am y tro cyntaf yn Mis Mawrth gan fod Sul y Blodau yn disgyn o fewn y mis. Hysbyswyd y Cyngor bod Main Coffa bellach wedi ei gosod o fewn y fynwent.	**KB**
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
	Peter Simpson Cyngor Gwynedd am gael gwybodaeth cysylltu â'r dyluniwr Tir Moriah ar gyfer y Cyngor.	
13.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
13.1	Sbwriel yn ymgasglu yn y gysgodfan bws ger Tafarngrisiau - Y Cynghorydd Nerys John am ddelio 'r mater.	**NJ**
14.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Gweler Atodiad 2	
15.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
15.1	Y Cynghorydd Daniel Williams wedi cysylltu â'r Clwb hwylio ac wedi cyflwyno'r wybodaeth iddynt ynglŷn â'r cynllun arfaethedig i wal y cei.	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 10:15 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	

Atodiad 1

CYNGOR CYMUNED
Y FELINHELI
COMMUNITY COUNCIL

CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL
APPLICATIONS FOR FINANCIAL ASSISTANCE

20.01.15

CYMDEITHAS/ORGANISATION		MANTOLEN / STATEMENT	2013/14	2014/15	PENDERFYNIAD /DECISION
Y Goriad			200	200	
Clwb Peldroed			500	400	
1st Felinheli Rainbows	£50		50	50	
3rd Portdinorwic Guides	£100		100	75	
Cylch Meithrin	£245		150	250	
CyfeillionYsgol Y Felinheli			200		Dim cais eleni
Cylch Ti a Fi	£120			100	
Ras Hwylio	£200		150	100	
Clwb y Felin (Henoed)			150	100	
Brownies			100	75	
Clwb Peldroed Ieuenctid			350	350	
Cefnogi			500		Dim cais eleni
Felin Sgwrsio	£262.16		262		Dim cais eleni
Gŵyl y Felin	£1000		1000	800	

CEISIADAU ERAILL / OTHER APPLICATIONS

Theatr Bara Caws
Dawns I Bawb

Atodiad 2

Adroddiad Cynghorydd Siân Gwenllïan Chwefror 2015

Mwy o wybodaeth ar www.felinheli.org/newyddion

1)**Llwybr yr arfordir drwy'r Marina a'r Faenol**: Fe fydd gwrandawiad gan Arolygydd Cynllunio yn cael ei gynnal ar Mai 20 ynglŷn â Gorchymyn Creu Llwybr gan Gyngor Gwynedd yn Glan y Môr Lodge. Byddaf yn mynychu'r gwrandawiad ac yn cefnogi achos y Cyngor i greu llwybr cyhoeddus yn y fan yma. Bydd modd wedyn symud ymlaen i gwblhau Llwybr yr Arfordir dros y bont i'r Marina, drwy'r Faenol ac ymlaen i Dreborth.

2)**Cyflwr y ffordd yn Lon Llwyn a Rhes Helen**: rwyf wedi ysgrifennu eto at y Cyngor yn gofyn iddyn nhw flaenoriaethu gwaith i wella cyflwr y ddwy ffordd yma. Ond dywed y Cyngor eu bod mewn cyfnod o doriadau sylweddol ar wariant yn sgil polisïau ariannol y llywodraeth. Byddaf yn parhau i bwyso ar y mater yma.

3)**Clwb Ieuenctid**: mae pryder fod y nifer sy'n mynychu'r clwb yn gostwng gan beryglu ei ddyfodol. Mae'r Clwb ar agor i bobl ifanc o Flwyddyn 8 ymlaen ac yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa bob nos Fawrth. Byddwn yn gwerthfawrogi pe baech yn annog pobl ifanc i fynychu.

4)**Cynllun Datblygu Lleol**: Am 6 wythnos o Chwefror 16, fe fydd Cyngor Gwynedd yn cynnal cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ar y cynllun newydd fydd yn penderfynu ar ddefnydd tir ar draws y sir gan gynnwys yn Y Felinheli. Bydd map o'r pentref yn cael ei gyhoeddi yn dangos ble fydd y ffin datblygu ac unrhyw safleoedd newydd i'w datblygu. Bydd cyfle i bawb roi eu barn.

5)Bydd cyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned ar Fawrth 3ydd ar y thema **'Y Gymraeg a Thai'** pryd fydd cyfle i'r cyhoedd ymuno a'r cynghorwyr i glywed am fenter lwyddiannus yn Nefyn sydd wedi golygu fod tai ar gael ar rent i bobl leol yn sgil sefydlu Ymddiriedolaeth Tai. Grŵp iaith Y Felinheli sydd yn trefnu'r digwyddiad.

6) **Brecwast Busnes**: mae cyfarfod brecwast i ail-lansio Fforwm Busnes Y Felinheli yn cael ei gynnal Mawrth 20 gyda chyflwyniad ar fanteision dwyieithrwydd mewn busnes. Croeso cynnes i fusnesau'r pentref.

7)**Cylch Meithrin Y Felinheli**: mae'r Cylch yn wynebu anawsterau ariannol ac rwyf wedi cynnal cyfarfod efo nhw i drafod eu pryderon.
8)Mae gwaith **Scottish Power** o osod cysylltiad trydan newydd o dan y Fenai yn Llanfair-is-gaer bron a dod i ben. Cefais gyfle i ymweld â'r safle efo'r Aelod Seneddol.